

Ymateb yn Dda i Oroeswyr Camdriniaeth

1. Cyflwyniad

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwmo i ymateb yn dda i oroeswyr. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod bod ymateb yn y ffordd gywir i oroeswyr yn gofyn am weithredu'r canllawiau hyn drwy ddarparu ymateb tosturiol ac empathig, gwrando ac ymateb yn briodol, a meithrin perthasoedd llawn ymddiriedaeth. Efallai y bydd gan oroeswyr ddarlun clir o sut beth yw 'ymateb da' a byddwn yn ceisio gwneud a dilyn hyn, gydag unrhyw gyfyngiadau a ffiniau wedi'u nodi'n glir o'r cychwyn. Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith ar gyfer arferion gorau ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru, ond ni ddylai gyfyngu'r Eglwys yng Nghymru rhag ymateb yn wahanol os mai hynny sydd o fudd gorau i'r goroeswr. Bydd yr Eglwys yn dod i gysylltiad â goroeswyr sydd wedi profi camdriniaeth yn yr Eglwys yng Nghymru a thu allan iddi yn eu teuluoedd, eu cymunedau ac mewn eglwysi, enwadau a chrefyddau eraill. Fodd bynnag, mae ffocws penodol yn y canllawiau hyn ar y rhai sydd wedi cael profiad bywyd o gamdriniaeth yn yr Eglwys yng Nghymru.

Terminoleg

Mae'r termau 'dioddefwr', 'goroeswr' a'r 'rhai sydd â phrofiad bywyd o gamdriniaeth' yn wahanol dermau a ddefnyddir ar gyfer disgrifio pobl sydd wedi profi camdriniaeth. Bydd gan unigolion derminoleg maent yn ei ffafrio, a dylid parchu hyn, a defnyddio terminoleg y cytunwyd arni wrth gyfathrebu â'r unigolyn neu amdano. Gydol y canllawiau hyn, y term goroeswr fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i sicrhau cysondeb ond nid yw'n cynrychioli unrhyw derm dewisol sy'n cael ei ystyried yn bwysicach na therm arall.

Egwyddorion Cyffredinol

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol yn ystod ei hymwneud â goroeswyr:

- Meithrin diwylliant o wrando, tryloywder a pharch sy'n ei gwneud hi'n ddiogel i ddatgelu. Bydd goroeswyr yn gwybod eu bod yn cael eu clywed, eu deall, eu cymryd o ddifrif a'u cefnogi.
- Bydd goroeswyr a gweithwyr yr Eglwys yn gwybod pa broses i'w dilyn os oes rhywun yn adrodd am gamdriniaeth.
- Bydd yr ymateb i ddatgeliadau'n canolbwyntio ar y goroeswr ac nid yn achosi trawma pellach i'r person sy'n datgelu. Bydd pryderon yn cael sylw ac ymateb priodol ac amserol.
- Bydd ymatebwyr yn deall effaith trawma a'r ffordd orau o ymateb iddo.
- Bydd goroeswyr yn cael eu helpu i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, gan yr Eglwys a gan bobl a sefydliadau eraill.

(DS datblygwyd y rhain o brosiect lleisiau goroeswyr a gomisiynwyd gan Eglwys Loegr yn 2020)

2. Sylfeini Arferion Da

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru nifer o 'flociau adeiladu' i gefnogi darparu ymateb da i oroeswyr. Byddwn yn cyfeirio at y rhain yn gyson drwy'r polisi fel ein blociau adeiladu ar gyfer arferion da.

Llywodraethu:

- Y Corff Llywodraethol (Polisi Diogelu Taleithiol)
- Pwyllgor
- Panel
- Archwilio

Tîm Diogelu'r Dalaith:

- Swyddogion Diogelu'r Dalaith
- Hyfforddiant
- Ymgysylltu a Sicrwydd

Polisi,
Gweithrefn a
Chanllawiau

Llywodraethu

Mae Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru wedi cymeradwyo Polisi Diogelu'r Dalaith. Mae'r canllawiau hyn, 'Ymateb yn dda i oroeswyr camdriniaeth' yn bodoli o dan fframwaith Polisi'r Dalaith i ddarparu manylion yr ymateb gofynnol.

Mae Pwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol yn derbyn adroddiadau gan y Pwyllgor Diogelu i sicrhau bod gan uwch-arweinwyr ddylanwad dros ddiogelu, yn cynnwys yr ymateb i oroeswyr. Mae'r Pwyllgor Diogelu'n goruchwylio diogelu ym mhob maes o'r Eglwys yng Nghymru ac mae ganddo awdurdod i gymeradwyo'r holl ganllawiau diogelu, yn cynnwys y ddogfen hon.

Mae'r Pwyllgor yn craffu ar wahanol ffrydiau gwaith diogelu. Mae'n cynnwys craffu ar waith y Panel Diogelu sy'n sicrhau ansawdd y gwaith achosion a weithredwyd gan Dîm Diogelu'r Dalaith, yn cynnwys ei ymateb i oroeswyr. Mae gwaith craffu'r Pwyllgor a sicrhau ansawdd y Panel yn cynnwys prosesau archwilio mewnol ac allanol o ran safonau diogelu'r Eglwys yng Nghymru. Mae ymateb yn dda i oroeswyr yn edefyn sy'n rhedeg drwy lawer o'r safonau diogelu hyn. Mae'r archwiliadau'n arwain at wersi a ddysgwyd ac argymhellion arferion gorau sy'n gwella'r ymateb gofynnol i oroeswyr ymhellach.

Tîm Diogelu'r Dalaith:

Swyddogion Diogelu'r Dalaith – Swyddogion Diogelu'r Dalaith sy'n debygol o fod yr un pwynt cyswllt ar gyfer goreswyr yn y rhan fwyaf o achosion (bydd opsiynau eraill yn cael eu cynnig pan fydd y goreswr yn gofyn am hynny). Mae'r Swyddogion yn cael eu recriwtio o ystod o gefndiroedd diogelu ac yn darparu gwybodaeth a chynghor annibynnol, proffesiynol i'r Eglwys yng Nghymru. Mae eu gwybodaeth a'u sgiliau'n ganolog i lwyddiant yr Eglwys wrth ymateb yn dda i oroeswyr.

Hyfforddiant - Mae yna sbectrwm eang o fodiwlau hyfforddiant yn cael eu darparu yn yr Eglwys yng Nghymru, pob un yn cyfrannu at baratoi'r Eglwys yng Nghymru i ymateb yn dda i oroeswyr.

Ymgysylltu a Sicrwydd – Mae'r rolau ymgysylltu a sicrwydd yn darparu cymorth i arweinwyr diogelu lleol o fewn esgobaethau, ardaloedd gweinidogaeth / cenhadaeth ac eglwysi er mwyn rhoi'r canllawiau hyn ar waith.

Polisi, Gweithdrefn a Chanllawiau

Mae polisi, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu'r Eglwys yng Nghymru'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r adolygiadau'n cymryd sylw o'r gwersi a ddysgwyd ac yn sicrhau cydymffurfiaeth ag arferion gorau a ddarperir gan sefydliadau statudol a gwirfoddol wrth ymateb i oroeswyr camdriniaeth.

3. Datgelu

Mae'r Eglwys yn cydnabod ei bod hi'n anodd i rywun rannu eu profiad o gamdriniaeth. Yn aml, mae'n golygu dychwelyd at ddigwyddiadau trawmatig sy'n achosi gofid sylweddol. Gall goroeswyr brofi ymateb gwael ac annigonol i ddatgeliad, fel beio, gwrthod credu, neu cael eu hatal rhag siarad. Gall hyn ychwanegu at ba mor anodd ydyw i bobl ddewis gwneud datgeliadau pellach.

Rhoddodd The Truth Project, a oedd yn rhan o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gyfle i fwy na 6,000 o ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol rannu eu profiadau. Canfu The Truth Project bod:

'The majority of victims and survivors did not disclose child sexual abuse at the time that it was happening. Just 33 percent of Truth Project participants who discussed disclosure said that they disclosed that they were being sexually abused at the time. Most disclosed to a parent, the police or someone within the institution in which they were abused. Amongst those who did disclose child sexual abuse at the time, the majority said that they did not receive the help and protection that they needed. Victims and survivors often said that the person to whom they disclosed responded inadequately. Many victims and survivors were accused of lying, were blamed or were silenced. These experiences were common, whether victims and survivors disclosed as children in the 1950s or 2010s. Victims and survivors commonly said that negative responses to disclosures meant they never wanted to talk about their experiences of child sexual abuse again.'

Mae'r dystiolaeth hon gan oroeswyr yn ein hatgoffa o bwysigrwydd sicrhau'r ymateb cywir i ddatgeliad. Gall goroeswr ddatgelu i unrhyw un mewn cyd-destun eglwysig. Efallai na fydd yr unigolyn hwnnw'n glerig na'n swyddog diogelu. Byddwn felly'n ymdrechu i sicrhau diwylliant eglwysig lle mae'n ddiogel i ddatgelu a lle mae pobl yn ymateb yn dda i oroeswyr.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn creu a hyrwyddo Diwylliant Eglwys iach sy'n hwyluso datgeliadau.

Mae'n rhaid iddi wybod y canlynol a chyfathrebu'r wybodaeth i bawb sy'n gysylltiedig:

- sut y gall dioddefwyr a goroeswyr adrodd am gamdriniaeth yn yr Eglwys.
- y cymorth sydd ar gael i ddatgelwyr yn syth ar ôl iddynt ddatgelu a sut y byddant yn cael eu cynorthwyo yn ystod ac ar ôl yr ymchwiliad.
- y prosesau a fydd yn cael eu dilyn pan fydd achos o gamdriniaeth (neu berygl o gamdriniaeth) yn cael ei ddatgelu a beth fydd yn digwydd i wybodaeth bersonol pobl sy'n destun y datgeliad o gamdriniaeth.
- sut mae honiadau o gam-drin yn cael eu hadrodd i wasanaethau statudol.
- sut y gall dioddefwyr a goroeswyr gysylltu â gwasanaethau statudol os ydynt yn credu eu bod wedi'u cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin.
- manylion cyswllt gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr.
- mae'n rhaid i bob datgeliad o gamdriniaeth gael ei atgyfeirio i Dîm Diogelu'r Dalaith

Mae'n rhaid i wybodaeth am ddiogelu gael ei chyfieithu i Gymraeg a Saesneg

Sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni

Polisi, Gweithdrefn a Chanllawiau

Mae'n rhaid i bob Cyngor Ardal Gweinidogaeth / Cenhadaeth fabwysiadu polisi diogelu'r Eglwys yng Nghymru. Mae'r Polisi Diogelu'n cael ei fabwysiadu'n flynyddol, gan Eglwysi, Cadeirlannau, Ardaloedd Cenhadaeth/Gweinidogaeth, ac Esgobaethau, felly'n codi ymwybyddiaeth o Ddiogelu, prosesau adrodd, a phwysleisio bod diogelu yn 'gyfrifoldeb i bawb'. Mae'r poster datganiad Polisi wedi'i arddangos mewn lle cyhoeddus ym mhob Eglwys ac yn rhoi manylion arweinwyr diogelu lleol. Mae canllawiau'r Eglwys yng Nghymru'n cynnwys gwybodaeth am ymateb i bryderon er mwyn esbonio'r broses i'w dilyn pan ddatgelir achos o gam-drin.

Codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i ddathlu 'Dydd Sul Diogelu', sy'n cyfrannu at godi proffil diogelu. Mae gweithgarwch ymgysylltu a sicrwydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn rhoi cyfle i gefnogi dealltwriaeth leol o weithdrefnau a chanllawiau diogelu yn y dalaith. Mae hyn yn cysylltu â darpariaeth hyfforddiant diogelu lleol sy'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ymateb gofynnol ac arferion da. Mae ystod eang o fodiwlau hyfforddiant yn cael eu darparu i bobl sy'n gweithio ar wahanol lefelau yn yr Eglwys. Fel enghreifftiau, mae hyfforddiant diogelu uwch arweinwyr yn canolbwyntio ar sut mae diwylliant ac arweinyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelu, tra bod y modiwl ymwybyddiaeth o ddiogelu'n darparu gwybodaeth a sgiliau i aelodau'r gynulleidfa allu ymateb yn dda i achos o ddatgeliad.

Bydd modiwl hyfforddiant penodol hefyd yn cael ei ddarparu i wella gwybodaeth a sgiliau clerigion a swyddogion eglwys er mwyn iddynt ymateb yn dda i oroeswyr. Bydd hwn yn cynnwys:

- Deall sut beth yw ymateb sy'n canolbwyntio ar oroeswr ac sy'n seiliedig ar drawma
- Hysbysu'r goroeswr cyn gynted â phosibl o'r wybodaeth y bydd angen ei datgelu ac i bwy
- Derbyn datgeliad ar y cyflymder sy'n addas i'r goroeswr a deall na fydd hyn o reidrwydd yn gronolegol neu'n ystyrlon
- Cofnodi datgeliadau (gwneud cofnod ysgrifenedig cyn gynted â phosibl a'i wirio gyda'r goroeswr). Gall y cofnodion hyn gael eu defnyddio mewn achosion troseddol
- Sgiliau gwrando gweithredol
- Gofalu am oroeswr yn syth ar ôl iddo ddatgelu (cyfeirio at y cymorth sydd ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r Eglwys)
- Ymateb yn dda wyneb yn wyneb a thrwy ddulliau eraill, e.e. ar-lein.

Dyma rai canllawiau arferion gorau ar gyfer derbyn datgeliad:

- Amser a Lle – Mae'n well gadael i dioddefwr neu oroeswr siarad pan a ble mae'n barod, ond efallai y bydd hi'n bosibl ystyried materion diogelwch, preifatrwydd a chyfrinachedd. Cofiwch efallai y bydd angen i'r dioddefwr neu oroeswr gyfarfod i ffwrdd oddi wrth lefydd sy'n gysylltiedig â'r eglwys ac ystyriwch y dewis o ble i siarad yn ofalus.
- Cyfrinachedd - Mae cyfrinachedd yn bwysig i ennyn ymddiriedaeth, ond mae'n hanfodol bod y dioddefwr neu'r goroeswr yn cael ei hysbysu am derfynau a ffiniau cyfrinachedd a'r posibilrwydd y bydd angen adrodd am unrhyw berygl parhaus o niwed neu gamdriniaeth i blentyn neu oedolyn mewn perygl.
- Preifatrwydd – Dylid archwilio gyda'r dioddefwr neu'r goroeswr a yw hi'n briodol cyfarfod ar eich pen eich hunain neu a ddylai person arall fod yn bresennol.
- Disgwyliadau – Mae'n bwysig canfod beth mae'r dioddefwr neu'r goroeswr yn ei ddisgwyl ac archwilio sut y gellir cyflawni hyn.
- Clywed y datgeliad
 - o ceisiwch beidio â chyffroi i osgoi dangos eich bod mewn sioc neu'n ofidus
 - o derbyniwch beth mae'r dioddefwr neu'r goroeswr yn ei ddweud a dangos eich bod yn ei gymryd o ddifrif
 - o gwrandewch heb farnu a gadael i'r person ddweud ei stori
 - o ceisiwch beidio torri ar draws neu brocio'r dioddefwr neu'r goroeswr i ddweud mwy
 - o gofynnwch am esboniad o'r ffeithiau ond peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol
 - o sicrhewch y dioddefwr neu'r goroeswr mai datgelu oedd y peth iawn i'w wneud
 - o cytunwch ar y cam nesaf
- Y camau nesaf - Mae'n bwysig cytuno beth fydd yn digwydd nesaf. Gallai hyn gynnwys cymryd camau'n syth i atal niwed pellach, gofyn am gyngor a chymorth gan Dîm Diogelu'r Dalaith a/neu gyfeirio'r dioddefwr neu'r goroeswr i ffynonellau gofal arbenigol priodol. Sicrhewch fod gan y dioddefwr neu'r goroeswr bwynt cyswllt cyson.

Ni ddylech geisio cysylltu â chamdriniwr honedig ar unrhyw gyfrif. Os mai plentyn sy'n datgelu, dylid ymdrechu i gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith, cyn i'r plentyn adael rhag ofn bod angen cymryd camau yn syth.

- **Cydsyniad** – Os yw'r dioddefwr neu'r goroeswr yn oedolyn sy'n datgelu camdriniaeth a ddigwyddodd pan oedd yn oedolyn, bydd y camau a gymerwch angen cydsyniad yr unigolyn yn y rhan fwyaf o achosion. Dylid annog dioddefwyr a goroeswyr sy'n oedolion i adrodd am gamdriniaeth, gyda chymorth yr eglwys os oes angen, ond ni ddylid eu dadrymuso drwy gymryd eu rheolaeth ar y sefyllfa oddi arnynt. Fodd bynnag, os yw dioddefwr neu oroeswr sy'n oedolyn yn datgelu camdriniaeth a ddigwyddodd pan oedd yn blentyn, efallai y bydd angen riportio'r achos i'r heddlu heb gydsyniad a chyfranogiad y dioddefwr neu'r goroeswr a bydd rhaid gofyn am gyngor gan Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, dylid gofyn am gyngor os yw hi'n ymddangos nad oes gan yr oedolyn sy'n datgelu camdriniaeth allu digonol i wneud penderfyniadau gwybodus am yr achos o gamdriniaeth. Mae'n rhaid riportio achos o blentyn sy'n datgelu ei fod ef ei hun wedi'i gam-drin, neu fod plentyn arall wedi'i gam-drin, bob amser i Swyddog Diogelu'r Dalaith a'i atgyfeirio i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid dweud wrth blant sy'n datgelu achos o gam-drin y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt, a hynny er mwyn eu hamddiffyn.
- **Cofnodi** – Mae'n hanfodol bod cofnod manwl a chywir o ddatgeliad camdriniaeth yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl yn dilyn y datgeliad, gan ddefnyddio union eiriau'r dioddefwr neu oroeswr cyn belled ag sy'n bosibl. Mae'n rhaid llofnodi, dyddio a chadw'r cofnod yn ddiogel er mwyn ei rannu â Thîm Diogelu'r Dalaith.

Os oes gennych wybodaeth am sefyllfa ddiogelu lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol neu angen sylw meddygol brys, ffoniwch y gwasanaethau brys nawr ar 999 – PEIDIWCH AG OEDI.

Os ydych chi'n credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed ond nid y funud hon, ffoniwch adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

4. Cymorth i Oroeswyr

Mae anghenion cymorth goroeswyr yn amrywiol felly mae angen i wasanaethau cymorth i oroeswyr ymateb mewn ffordd hyblyg. Mae profiadau goroeswyr yn unigryw i'r unigolyn ac felly mae angen amrywiaeth o wasanaethau ar adegau gwahanol yn ystod y daith adfer. Gall hyn gynnwys cymorth brys yn syth, gwasanaethau tymor byr a thymor canolig, gyda goroeswyr yn gallu cael mynediad iddynt yn brydlon.

Mae gweithgarwch ymgysylltu wedi nodi'r gwasanaethau cymorth y mae goroeswyr yn gofyn amdanynt:

- Cymorth ar gael lle mae'i angen, am y cyfnod yr aseswyd sy'n briodol, a'i bod hi'n hawdd cael mynediad ato eto a heb bwysau;
- Cymorth heb agenda – h.y. nad yw'n gwthio'r sawl sy'n datgelu i lawr llwybr cyfiawnder troseddol (ond a fyddai'n ei gefnogi i riportio pe byddai'n dewis gwneud hynny);
- Dewis o ddarparwyr cymorth: gwasanaethau trais rhywiol arbenigol y sector statudol a gwirfoddol;
- Dewis o gymorth: cymorth emosiynol, therapiwtig, eiriolaeth, ymyrryd mewn argyfwng, gwaith grŵp a llinell gymorth o leiaf;
- Llwybrau mynediad hyblyg - e.e. drwy neges destun neu e-bost yn ogystal ag wyneb yn wyneb, neu drwy atgyfeiriad trydydd person;
- Darpariaeth gwasanaeth rhywedd-benodol a sensitif o rywedd, gyda dewis o weithwyr cymorth benywaidd neu wrywaidd. I rai goroeswyr, mae hyn yn golygu cael cymorth drwy lwybrau atgyfeirio menywod yn unig neu ddynion yn unig gan fod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel ac yn dileu rhwystrau i gael gafael ar gymorth;
- Gwasanaethau hygyrch: amseroedd apwyntiadau amrywiol, llwybrau atgyfeirio clir a chyfarwydd, llwybrau niferus at gymorth arbenigol, ymateb cyflym a gwasanaethau sy'n agos at adref;
- Mae'r angen am wasanaethau amrywiol wedi'i gefnogi gan ymchwil sy'n canfod bod angen teilwra ymyriadau yn ôl pwynt adfer.

*(DS Mae'r uchod yn gyfieithiad o destun sy'n dod o **Survivors' Journeys – Survivors' Voices: Including the voice of survivors in commissioning support services**)*

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol. Bydd goroeswyr yn:

- derbyn pwynt cyswllt unigol yn yr Eglwys yng Nghymru
- yn cael dewis rhywedd ac iaith y person cyswllt ac a yw'n dod o'r Eglwys yng Nghymru neu o'r tu allan
- cael cyfle i archwilio a mynegi eu hanghenion cymorth, Bydd yr anghenion cymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- derbyn cymorth i gael gafael ar y gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn brydlon, yn cynnwys cymorth sy'n ystyried natur benodol camdriniaeth sy'n digwydd yn yr Eglwys
- cael eu hystyried ar gyfer darpariaeth cyllid yn yr Eglwys yng Nghymru mewn modd syml ac amserol pan fo costau ynghlwm wrth y cymorth
- gallu cael gafael ar gymorth bugeiliol pan maent yn gofyn am hynny.

Sut y cyflawnir hyn?

Bydd pob achos o gamdriniaeth yn yr Eglwys yn cael ei atgyfeirio i Dîm Diogelu'r Dalaith. Bydd y Tîm yn gyfrifol am sefydlu'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer goroeswr, sef Swyddog Diogelu Tîm y Dalaith fel arfer. Os yw'n well gan oroeswr gael pwynt cyswllt unigol sy'n gwbl annibynnol ar yr Eglwys yng Nghymru bydd modd edrych ar hyn drwy atgyfeiriad at Safe Spaces. Gellir ystyried atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol eraill gyda chytundeb y goroeswr, e.e. Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol mewn Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, fel New Pathways.

Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn arwain ar y gwaith o nodi gwasanaethau cymorth lleol i ddiwallu anghenion goroeswyr. Mae aelodau'r Tîm wedi'u lleoli yn yr esgobaeth lle maent yn gwasanaethu ac mae hyn yn golygu y gallant ddatblygu gwybodaeth lleol o ran y cymorth sydd ar gael a meithrin rhwydweithiau proffesiynol. Os oes angen cyllid i gael cymorth priodol bydd cais yn cael ei wneud i'r Cynllun Cymorth i Oroeswyr. Bydd y cynllun yn asesu ac yn penderfynu ar y cyllid sydd ei angen (gweler Canllawiau'r Cynllun Cymorth i Oroeswyr).

Gall goroeswyr camdriniaeth yn yr Eglwys yng Nghymru'n gael cymorth arbenigol gan Safe Spaces. Gwasanaeth cymorth annibynnol am ddim yw hwn sy'n darparu gofod personol, diogel a chyfrinachol i unrhyw un sydd wedi'i gam-drin gan rywun yn yr Eglwys neu o ganlyniad i'w berthynas â'r Eglwys yng Nghymru. Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn sicrhau bod pob goroeswr yn cael manylion Safe Spaces cyn gynted â phosibl ac yn gallu helpu i gwblhau'r atgyfeiriad gofynnol.

Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn sicrhau bod eu datblygiad proffesiynol parhaus yn parhau i fod yn gyfredol mewn perthynas â chefnogi goroeswyr. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant penodol ar gamdriniaeth yn yr Eglwys i staff Tîm Diogelu'r Dalaith ac aelodau o'r Pwyllgor Diogelu a'r Panel Diogelu.

Bydd pob esgobaeth yn cael gwahoddiad i nodi swyddogion eglwys (lleyg neu ordeiniedig) a fydd yn darparu cymorth bugeiliol priodol i oroeswyr camdriniaeth (gyda dewis o rywedd ac iaith ar gael). Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn atgyfeirio i'r esgobaeth pan fydd goroeswr yn gofyn am gymorth bugeiliol. Bydd hyfforddiant penodol yn cael ei ddatblygu i'r rhai sy'n cynnig cymorth bugeiliol i oroeswyr camdriniaeth yn yr eglwys. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys y canlynol: deall rôl a ffiniau cymorth bugeiliol i oroeswyr; deall effeithiau camdriniaeth yn yr eglwys, ac ar ysbrydolrwydd yn benodol; deall maddeuant yng nghyd-destun camdriniaeth yn yr eglwys.

Pan ofynnir i ddiodefwyr a goroeswyr gymryd rhan mewn prosesau mewnol fel rhoi tystiolaeth mewn tribiwnlysoedd, mae'n bwysig eu bod yn cael cynnig cymorth ar bob lefel. Os gofynnir iddynt fynychu tribiwnlys dylid rhoi cyfle iddynt fynd â chefnogwr gyda nhw a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Dylid eu hamddiffyn rhag dod i gysylltiad uniongyrchol â'u camdriniwr neu gamdriniwr honedig mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath, oni bai eu bod yn gofyn am hynny, ac os felly dylid rheoli'r sefyllfa mewn ffordd ddiogel a sensitif. Dylai anghenion llesiant diodefwyr a goroeswyr fod o'r pwys mwyaf gydol y prosesau hyn a dylid trafod eu hanghenion o'r cychwyn.

Bydd y Panel Diogelu, wrth sicrhau ansawdd gwaith achosion, yn ystyried a aed i'r afael â darparu cymorth i'r goroeswr mewn ffordd briodol. Os oes themâu'n codi ynghylch yr ymateb gofynnol bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Diogelu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw welliannau angenrheidiol.

Dolenni i Gymorth ar gyfer Dioddefwyr a Goroeswyr y tu allan i'r Eglwys yng Nghymru

Safe Spaces

<https://www.safespacesenglandandwales.org.uk> 0300 303 1056

Gwasanaeth cymorth annibynnol am ddim yw Safe Spaces sy'n darparu gofod diogel, personol a chyfrinachol i unrhyw un sydd wedi'i gam-drin gan rywun yn yr Eglwys neu o ganlyniad i'w berthynas â rhywun yn Eglwys Loegr, yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru.

New Pathways

<http://www.newpathways.org.uk> 01685 379 310

Cwmni elusennol cofrestredig sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cwnsela ac eiriolaeth arbenigol i fenywod, dynion, plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan dreisio neu gam-drin rhywiol.

The Survivors Trust

0808 801 0818

www.thesurvivorstrust.org

Asiantaeth ymbarél ar gyfer gwasanaethau treisio a cham-drin rhywiol arbenigol yn y DU sy'n darparu gwybodaeth, cynghor, cymorth a therapi i oroeswyr.

MACSAS

0808 801 0340

(Ministry and Clergy Sexual Abuse Survivors)

www.macsas.org.uk

Mae MACSAS yn cefnogi menywod a dynion sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol, fel plant neu oedolion, gan weinidogion, clerigion, neu eraill yn ymwneud â'r Eglwys. Mae MACSAS yn cefnogi goroeswyr sydd wedi aros yn eu cymunedau Cristnogol a'r rhai sydd wedi gadael.

NAPAC

0808 801 0331

(National Association for People Abused in Childhood)

<https://www.napac.org.uk>

Mae NAPAC yn cynnig cymorth i oedolion sydd wedi goroesi pob math o gamdriniaeth yn ystod eu plentyndod, yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu esgeulustod.

Broken Rites

<https://www.brokenrites.org>

Grŵp rhyngwladol sy'n cynnig cyd-gymorth a gwybodaeth i bartneriaid neu wŷr/gwragedd sydd wedi gwahanu neu ysgaru oddi wrth glerigion, gweinidogion a Swyddogion y Fyddin yn yr Eglwys.

5. Ymddiheuro

Gall ymddiheuriad fod yn fuddiol iawn i oroeswyr camdriniaeth. O'i wneud yn ddidwyll a sensitif gall fod yn therapiwtig a chyfrannu at y broses wella. Mae athrawiaethau'r Eglwys yn nodi'n amlwg y dylen ni gydnabod ein pechodau a gofyn am faddeuant Duw gan ddangos gwir edifeirwch. Mae'n briodol bod yr Eglwys yn cymhwyso hyn wrth ymateb i oroeswyr camdriniaeth yn yr Eglwys, ac yn ystyried sut y gall wneud iawn am y niwed a achoswyd. Dylai'r penderfyniad ar gyflwyno ymddiheuriad fod yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, a dymuniadau'r goroeswr. Nid yw ymddiheuriad yn gyfystyr â derbyn atebolrwydd. Mae Compensation Act 2006 yn datgan nad yw

cynnig ymddiheuriad, cynnig triniaeth a math arall o wneud iawn ynddo'i hun yn gyfystyr â chyfaddef esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn ymddiheuro:

Pan fydd rhywun wedi'i gael yn euog o gamdriniaeth sy'n gysylltiedig â'r Eglwys NEU pan fydd achos sifil, ymchwiliad mewnol neu achos disgyblu yn canfod bod camdriniaeth sy'n gysylltiedig â'r Eglwys wedi digwydd NEU pan fydd adolygiad annibynnol yn canfod bod yr Eglwys yng Nghymru wedi methu yn ei hymateb i oroeswr.

Pan na fodlonir y meini prawf uchod bydd yr Eglwys yn dal i *ystyried* a ddylid ymddiheuro.

Ni fydd ymddiheuriad yn dibynnu ar a yw'r cyflawnwr yn fyw neu'n farw. Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn gofyn am gyngor cyfreithiol cyn cynnig ymddiheuriad [yn enwedig o ran a ddylid cynnig ymddiheuriad gyda neu heb dderbyn atebolrwydd].

Swyddfa'r Esgob yn yr esgobaeth lle digwyddodd yr achos o gam-drin a fydd yn gyfrifol am gynnig yr ymddiheuriad. Bydd yr Archesgob yn cynnig ymddiheuriad os oes mwy nag un esgobaeth yn rhan o'r achos neu os mai Esgob yw'r cyflawnwr.

Gofynnir i'r goroeswr a oes ganddo unrhyw ddisgwyliad o ran yr ymddiheuriad a bydd hynny'n cael ei gynnwys lle bo'n bosibl.

Pan ofynnir am ymddiheuriad wyneb yn wyneb a bod hyn yn briodol, dylai aelod o Dîm Diogelu'r Dalaith fod yn bresennol. Dylai'r goroeswr gael person o'i ddewis i'w gefnogi yn y cyfarfod hefyd.

Sut y cyflawnir hyn?

Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith sy'n ymdrin â'r achos yn ystyried pryd mae angen ymddiheuriad neu pryd y dylid ystyried ymddiheuro. Bydd y Swyddog yn gofyn am farn y goroeswr. Yna, bydd yr achos yn cael ei drafod mewn sesiwn Brysbennu, lle gellir ymgynghori â'r adrannau Cyfreithiol ac AD. Bydd y Swyddog yn hysbysu'r Esgob neu'r Archesgob pan fydd y grŵp Brysbennu wedi argymhell ymddiheuriad. Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith a'r adran gyfreithiol yn darparu cymorth i ddrafftio cynnwys ymddiheuriad, ac i gefnogi'r Esgob mewn unrhyw gyfarfodydd ymddiheuro wyneb yn wyneb. Bydd esgobion a Swyddogion Diogelu'r Dalaith yn derbyn hyfforddiant ar arferion gorau rhoi ymddiheuriad i oroeswr.

Dylai cynnwys ymddiheuriad fynd i'r afael â'r ffactorau canlynol:

- Cydnabod y niwed a achoswyd – esbonio eich bod yn deall y niwed emosiynol neu gorfforol a gafodd y goroeswr
- Ymwrthod â'r weithred – dweud bod yr hyn a brofodd y goroeswr yn anghywir ac na ddylai fod wedi digwydd. Os oes ymchwiliad ffurfiol wedi'i gynnal, gall yr ymddiheuriad ailddatgan ffeithiau'r canlyniad ac ymwrthodiad yr Eglwys o weithredoedd Swyddog(ion) yr Eglwys.
- Archwilio Gwneud iawn – gwahodd y goroeswr i drafod sut y gall yr Eglwys wneud iawn am y niwed a achoswyd.
- Sicrhau'r dioddefwr – esbonio'r mesurau a gymerwyd i atal y niwed a achoswyd rhag digwydd eto.

- Dangos gwerthoedd priodol – dangos gofid ac edifeirwch am ei gweithredoedd neu weithgareddau pechadurus Swyddog(ion) yr Eglwys.

(Addaswyd o DeYoung, K. (2018)). [Toward a theology of apology](#))

Mae arferion gorau mewn perthynas â chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r goroeswr yn gallu cael person neu ddau o'i ddewis i'w gefnogi yn y cyfarfod a dewis gan bwy mae'n derbyn yr ymddiheuriad;
- Dylai'r Esgob/Archesgob ddechrau'r cyfarfod drwy fynegi ei ofid am y cam-drin a'r niwed a achoswyd;
- Os yw'r goroeswr yn dymuno dylid ei wahodd i rannu unrhyw brofiad am y gamdriniaeth a'r effaith y mae hynny wedi'i chael arno;
- Dylai'r Esgob a swyddogion yr Eglwys arddangos gwranddo gweithredol a dangos empathi tuag at y goroeswr a chydabod y niwed a achoswyd;
- Dylid rhannu unrhyw newidiadau a gwelliannau a wnaed ers i'r gamdriniaeth ddigwydd neu o ganlyniad uniongyrchol i'r ymchwiliad hwn â'r goroeswr ond gwneud hynny mewn ffordd i'w sicrhau ac nid lleihau difrifoldeb y gamdriniaeth a ddigwyddodd.

Nodyn am Faddeuant

Mae maddeuant yn rhodd gan Dduw (Colosiaid 1:14) ac yn ein dwyn i brofiad dyfnach o gariad Duw. Mae hefyd yn fater cymhleth, yn enwedig i'r rhai sydd wedi'u cam-drin. Ni ddylid annog goroeswyr neu ddiodefwyr gamdriniaeth i faddau'n ddiamedd pan nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad hwn. Mae'n rhaid cydnabod deinameg pŵer mewn ymwneud bugeiliol fel na fydd goroeswyr na diodefwyr yn teimlo'n ddi-rym ac yn methu myfyrio ar eu profiadau. Mae'n amhriodol felly awgrymu i ddiodefwr neu oroeswr gamdriniaeth ei fod wedi methu os nad yw'n maddau i'w gamdriniwr neu y bydd hynny'n amharu ar ei ddatblygiad neu y bydd ei ddatblygiad mewn perygl. Mae maddeuant yn fater personol iawn. I rai, bydd yn agwedd bwysig ar eu gwelliant ac yn dod â thawelwch a diwedd i'r cyfan. Bydd eraill yn credu ei fod yn ddiangen neu hyd yn oed yn amhriodol gan nad yw'r camdriniwr wedi dangos edifeirwch. Bydd angen i bawb deithio ar ei gyflymder ei hun ac mewn ffordd y gall ymdopi ag ef. Gall diodefwr neu oroeswr archwilio'r cwestiwn o faddeuant gyda Christion sydd â sgiliau gwranddo a gofal bugeiliol. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gallu darparu cymorth o'r fath, ond ni ddylid gwneud i unrhyw ddiodefwr neu oroeswr deimlo bod rhaid gwneud hyn. Mae'n rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y diodefwr neu'r goroeswr yn teimlo ei fod yn cael ei groesawu a'i gefnogi yn ei eglwys, yn enwedig pan fo'r gynulleidfa yn gwybod am y niwed neu'r gamdriniaeth a gafodd, yn dilyn arestio camdriniwr. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw cymuned yr eglwys yn dyfalu ynghylch yr achos o gam-drin neu'n beio'r diodefwr neu'r goroeswr mewn unrhyw ffordd am ei fod wedi siarad am ei brofiad. Gelwir ar yr eglwys i ddarparu lle diogel i bobl ddarganfod heddych, cael eu derbyn a chael chroeso cynnes.